Rhifyn 5, Medi 08 Pris: 75c

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Swyddi Newydd

Elaine Edwards oedd Swyddog Polisi cyntaf UCAC, 'nôl ym mis Medi 2005. Fe hedfanodd tair blynedd heibio o dan fynydd o bolisïau adrannol, materion cwricwlaidd, taflenni gwybodaeth, paratoi tystiolaeth i gyrff amrywiol ac ati.

Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol

Fe'u cwblhaodd yn ddiymhongar a brwdfrydig gyda gwên a graen, a phan ddaeth yn amser i Gruff Hughes ymddeol fel Ysgrifennydd Cyffredinol, enillodd Elaine gefnogaeth unfrydol y Cyngor Cenedlaethol yn ei chais i lenwi'r swydd.

Cefndir byd addysg sydd gan Elaine, a hynny yn Sir Gâr. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Dyffryn Aman; aeth ymlaen i ennill gradd mewn Saesneg ac yna dilyn cwrs TAR yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth, cyn cychwyn ar yrfa ym myd addysg. Bu'n athrawes am bron i ugain mlynedd yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin, yn y blynyddoedd cynnar yn addysgu Dyniaethau i blant ag Anghenion Arbennig a Saesneg, cyn ei phenodi yn Bennaeth yr Adran Saesneg yno. Bu'n Ysgrifennydd Sir gydwybodol i UCAC yng Nghaerfyrddin, a chael ei hethol yn Llywydd Cenedlaethol, gan gael y cyfle i arwain a dirprwyo, trafod a chynrychioli.

Yn ystod ei chyfnod fel Swyddog Polisi cynrychiolodd UCAC ar bwyllgorau amrywiol ac mewn cyfarfodydd gyda chyrff yn ymwneud â byd addysg: yr Adran Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad, Y Corff Adolygu Cyflogau Athrawon (STRB) yn Llundain, Pwyllgor Arholiadau ac Asesu CBAC, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Pwyllgor Cyd-Undebol SCEW, Partneriaeth Cymru am Ddiogelwch y Rhyngrwyd (WISP) i enwi ond ychydig ohonynt. Elaine yw Ysgrifennydd Cyd-Bwyllgor Sefydlog Cymru, sy'n gorff cyd-undebol pwysig a sefydlwyd fel prif gorff i fonitro pryderon athrawon am faterion asesu disgyblion 5-19 oed. UCAC sydd yn cynrychioli'r CBSC – a Chymru – mewn cyfarfodydd cyd-undebol yn Llundain.

Mae dyfodol UCAC fel undeb athrawon sy'n cynrychioli athrawon Cymru yn unig yn sicr yn ddiogel dan arweiniad medrus Elaine Edwards, yr Ysgrifennydd Cyffredinol newydd.

Croeso i **Rebecca Williams** ein Swyddog Polisi newydd.

Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth, cyn iddi ennill ei gradd gyntaf mewn Ffrangeg ac Ieithyddiaeth ym Mhrifysgol East Anglia, Norwich. Enillodd radd uwch mewn Hawliau Dynol a Democrateiddio ym Mhrifysgol Padova, yr Eidal.

Rebecca Williams, Swyddog Polisi

Ar ddechrau ei gyrfa, bu'n Ymchwilydd yng Nghanolfan Mercator, Aberystwyth, cyn mynd i Bacistan i weithio fel hyfforddwr athrawon i Wasanaeth Addysg yr Aga Khan. Roedd gofynion y swydd honno yn golygu ei bod yn cynllunio, creu a chynnal cyrsiau hyfforddi athrawon cynradd ym maes dysgu ieithoedd. Bu'n Rheolwr Canolfan Adnoddau Saesneg y Cyngor Prydeinig yn Gilgit ar gyfer athrawon lleol yn bennaf. Treuliodd gyfnod yn gweithio fel Swyddog Gwybodaeth y Gymdeithas Newid Etholiadol (Electoral Reform Society) yn Llundain, yn hybu gwybodaeth ynglŷn â systemau etholiadol gan gynnwys datblygu deunyddiau ar gyfer athrawon a llunio dogfennau polisi.

Aeth dramor unwaith eto i dreulio cyfnod yn Warszawa, Gwlad Pwyl, i weithio i'r Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE). Roedd ganddi gyfrifoldeb am fonitro datblygiadau ym maes hawliau dynol yn yr hanner cant a phump o wledydd sy'n aelodau o'r OSCE. Dychwelodd i Aberystwyth i fod yn Swyddog Datblygu ac wedyn yn Rheolwr Dyddiol Cyf. Ers 2005, mae Rebecca wedi bod yn aelod o Bwyllgor UNESCO-Cymru. Rydym yn falch iawn o'i chroesawu i weithio yn rhengoedd UCAC.

Mae'r profiad y llwyddodd i'w feithrin yn yr amryfal swyddi uchod wedi ei pharatoi ar gyfer cynrychioli'r Undeb mewn dirprwyaethau gyda Gweinidog Addysg y Cynulliad Cenedlaethol a'r Corff Adolygu Amodau Gwaith Athrawon (STRB) yn Llundain; mynychu cyfarfodydd a chynadleddau amrywiol yn ymwneud ag addysg; ymateb i bapurau trafod, ymgynghoriadau a dogfennau perthnasol eraill; cynhyrchu taflenni gwybodaeth UCAC ar eich cyfer; meithrin cysylltiadau gyda'r wasg, bod yn rhan o dîm golygu *Yr Athro* a chynnig gair o gyngor yn ei bryd. Edrychwn ymlaen at gyfnod o gydweithio hapus gyda hi.

t2 Gwybodaeth t3 Yr Eisteddfod t4 Adnoddau

Gwybodaeth Bwysig i Athrawon

Trothwy Perfformiad

Barod i wneud cais i groesi'r trothwy?
Os ydych chi wedi cyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa mae'n amserol i chi wneud cais i symud i fyny i'r raddfa gyflogau uwch (trothwy perfformiad). Mae ffurflen gais a chyngor ar gael o www.teachernet.co.uk. Gwnewch yn siŵr eich bod yn derbyn gwybodaeth a ffurflen am Rownd 9.

Mae ffurflen gyngor UCAC ar gael oddi ar y wefan www.athrawon.com neu cysylltwch â'r brif swyddfa i dderbyn copi caled.

Wedi croesi'r trothwy i'r raddfa gyflogau uwch yn 2006?
Rydych yn barod, felly, i symud i fyny i U2. Cyngor UCAC yw eich bod yn rhoi llythyr i'ch pennaeth yn nodi hyn er mwyn eu hatgoffa ei fod yn amserol i chi gamu ymlaen ar y raddfa. Nid oes disgwyl i chi wneud cais ac ni ddylai fod problem o ran symud i fyny'r raddfa os ydych wedi cael dau adolygiad o berfformiad llwyddiannus.

Cyfnod diogelu'r hen lwfansau'n dod i ben
Bydd cyfnod diogelu'r hen lwfansau cyfrifoldeb yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2008. Os nad ydych chi'n derbyn lwfans CAD (*TLR*) yn lle'r hen lwfans, dylai'r cyfrifoldebau hynny oedd yn dod gyda'r tâl gael eu dileu. Cysylltwch ag UCAC am gyngor pellach ar y mater.

Athrawon Rhan-Amser a Chyflenwi
Ar 1 Medi bob blwyddyn hyd nes cyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa gyflogau, caiff pob athro a gyflogir yn rhan amser (ac athrawon cyflenwi a gyflogwyd unrhyw bryd ac am unrhyw gyfnod yn ystod 26 wythnos o'r flwyddyn ysgol flaenorol) symud i fyny'r brif raddfa gyflogau.

Gall athrawon rhan-amser ac athrawon cyflenwi hefyd wneud cais i groesi'r Trothwy Perfformiad unwaith iddynt gyrraedd pwynt 6 ar y raddfa gyflogau. Fe'u telir pro rata.

Tâl ac amodau gwaith athrawon rhan-amser
O hyn ymlaen, bydd cyflog athro rhan-amser yn seiliedig ar y canran o'r Amser Addysgu wedi'i Amserlennu yn Wythnosol (*School Timetabled Teaching Week*) a addysgir gan yr athro. Mae amser addysgu wedi'i amserlennu yn cynnwys amser CPA ac unrhyw gyfnodau eraill digyswllt, ond nid yw'n cynnwys amser gwasanaeth, egwyl a chinio.

Defnyddir yr *STTW* ar gyfer athro llawn-amser yn yr ysgol i gyfrifo'r canran o amser y cyflogir yr athro rhan-amser, e.e. os yw'r amser addysgu wedi'i amserlennu yn 25 awr (3 awr yn y bore, 2 awr yn y prynhawn) mae'r cyfanswm amser addysgu wedi'i amserlennu ar gyfer athro llawn-amser yn yr ysgol yn 25 awr. Mae athro rhan-amser sydd yn gweithio dau fore a dau brynhawn yn yr ysgol yn gweithio 10 awr o'r amser addysgu wedi'i amserlennu. Mae felly'n gweithio 40% o swydd lawn-amser o fewn yr ysgol.

Bydd hefyd disgwyl i athro rhan-amser fod ar gael am y ganran gyfatebol o 1265 awr yn ystod y diwrnodau gwaith.

Bydd y trefniant newydd yn golygu rhywfaint o ostyngiad mewn cyflog i ganran bach o athrawon ac mae yna drefniadau diogelu tâl ar eu cyfer hwy.

CBAC WJEC

edexcel advancing learning, changing lives

Partneriaeth newydd

Mae Edexcel a CBAC wedi cyhoeddi partneriaeth er mwyn cefnogi cyflwyno'r cymwysterau Prif Ddysgu newydd yng Nghymru. Caiff y cymwysterau hyn eu cyflwyno o fewn Bagloriaeth Cymru, gan gynnig opsiynau cwricwlwm newydd (sef Prif Ddysgu mewn *Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig*, *Peirianneg* a *Thechnoleg Gwybodaeth* o fis Medi 2009).

Un o gryfderau'r bartneriaeth fydd parhad y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion, colegau a darparwyr dysg eraill wrth i staff Sgiliau a Llwybrau CBAC a staff Edexcel a leolir yng Nghymru weithio ar y cyd.

Bydd y trefniant partneriaeth hwn yn golygu y bydd modd i brosesau dyfarnu a safonau fod yn gydnaws â darpariaeth Prif Ddysgu Edexcel yn Lloegr (fel rhan o'r Diplomâu). Bydd ymrwymiad CBAC i'r bartneriaeth yn sicrhau asesiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob un o'r cymwysterau hyn yn ogystal â chyflwyno adnoddau pwnc sy'n briodol i gyd-destun Cymru.

www.cbac.co.uk www.edexcel.org.uk

Geiriaduron Termau Iechyd Dwyieithog

Mae Grŵp Safoni Termau Iechyd Gogledd Cymru bellach wedi cyhoeddi amryw o eiriaduron termau iechyd er mwyn rhoi cymorth i weithwyr megis athrawon sy'n ymwneud ag iechyd yn yr ysgol a'r coleg. Mae'r geiriaduron hefyd yn cysoni terminoleg ac yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes, heb sôn am hybu dwyieithrwydd. Y geiriaduron a gyhoeddwyd hyd yma yw: *Termau Hybu Iechyd* (2000), *Termau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc* (2002), *Termau Gofal Iechyd Pobl Hŷn* (2005) a *Termau Therapi Galwedigaethol* (2007).

Gellir cael copïau o'r geiriaduron am £5 yr un (£6 post a phacio) trwy gysylltu ag Uned Gymraeg, Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint, Preswylfa, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, CH7 1PZ, Sharon.Jones@BILlSirYFflint.wales.nhs.uk neu archebu copi yn eich siop llyfrau Cymraeg lleol.

Gwefan y Grŵp Termau: www.flintshirelhb.wales.nhs.uk (cliciwch ar 'Grŵp Safoni Termau Gofal Iechyd')

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Emrys Wynne
Is-Lywydd: Gwynn Griffith
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cyd-lynydd *Yr Athro:* Rebecca Williams
Golygydd *Yr Athro:* Gwenllïan Dafydd
Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Rebecca Williams, Prif Swyddfa UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ Ffôn: 01970-639950
Ffacs: 01970-626765 E-bost: rebecca@athrawon.com www.athrawon.com

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Cyfarfod Cyhoeddus UCAC yn yr Eisteddfod

Roedd Pabell y Cymdeithasau'n llawn ddydd Mawrth yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer Cyfarfod Cyhoeddus UCAC ar **Ddyfodol Addysg Gymraeg yn Ne-ddwyrain Cymru** dan gadeiryddiaeth Emrys Wynne, y Llywydd Cenedlaethol.

Tynnodd y siaradwr cyntaf, **Hywel James**, ar ei brofiad fel ymgyrchydd a chyn-gadeirydd *Rhieni dros Addysg Gymraeg* i ddwyn i gof bod rhieni wedi gorfod brwydro ac, yn wir, aberthu yn y gorffennol er mwyn sicrhau addysg Gymraeg i'w plant. Er ei fod yn teimlo nad yw addysg Gymraeg wedi ei marchnata'n llawn nododd bod galw cynyddol serch hynny – a'r galw hwnnw'n dod yn bennaf o gyfeiriad Cymry di-Gymraeg brodorol y de-ddwyrain. Rhybuddiodd, er gwaethaf llwyddiannau'r gorffennol, mai colli tir fyddai gorffwys ar y rhwyfau a bod angen arweiniad clir a phendant gan Fwrdd yr Iaith a Llywodraeth y Cynulliad. Credai ei bod yn ffôl dibynnu ar fympwy Awdurdodau Addysg Lleol ac awgrymodd y dylid ystyried ymgorffori'r hawl i addysg Gymraeg mewn Deddf Iaith.

Sian Thomas

Tynnu ar ei phrofiad fel pennaeth Ysgol Glan Morfa yn ardal Sblot o Gaerdydd a wnaeth **Sian Thomas**. Mae'r ysgol hon wedi ei lleoli yn un o hen ardaloedd diwydiannol difreintiedig y brifddinas lle mae 40% o'r plant yn derbyn cinio yn rhad ac am ddim. Tyfodd yr ysgol o lwyddiant y Cylch Meithrin gan gychwyn mewn dwy ystafell o fewn ysgol cyfrwng Saesneg cyn symud yn 2007 i'w hadeilad ei hun. Pwysleisiodd ei bod yn ysgol sy'n perthyn i'r gymuned a'r gymuned yn falch ohoni, gyda mwyafrif llethol y disgyblion yn blant lleol o'r strydoedd cyfagos sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol.

Athro yn Ysgol Uwchradd Gwynllyw oedd y trydydd siaradwr, **Ion Thomas**. Cyflwynodd yntau dystiolaeth o dwf addysg Gymraeg, y tro hwn yng Ngwent. Nododd fod disgwyl i Ysgol Gwynllyw gynyddu o 833 disgybl yn 2008 i dros 1,300 ymhen deng mlynedd, ac Ysgol Cwm Rhymni o'r 1,200 presennol i dros 1,700. Roedd yn amlwg felly y bydd angen ysgol uwchradd Gymraeg ychwanegol yn y dalaith. Ceisiodd ddadansoddi'r rhesymau dros y galw yma gan awgrymu bod ystyriaethau fel ffasiwn a dilyn y llif, safonau academaidd uchel a'r gobaith am well siawns o gael swydd yn bwysicach i lawer nag unrhyw ymdeimlad o Gymreictod. O ganlyniad i hynny, mae'r diffyg defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn creu problem argyfyngus ar lefel genedlaethol sy'n gosod pwysau mawr ar yr ysgolion. Dadleuodd nad wrth gyfrif rhifau yn unig y bydd mesur llwyddiant addysg Gymraeg ac y bydd angen mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb o du disgyblion a rhieni i sicrhau y bydd ymwybyddiaeth o Gymreictod yn sail gadarn i addysg Gymraeg.

Geraint Rees, Ion Thomas a Hywel James

Mae **Geraint Rees**, y pedwerydd siaradwr, yn Bennaeth Ymgynghorol gyda Chyngor Dinas Caerdydd ac yn gyn-bennaeth Ysgol Uwchradd Plasmawr. Nododd ef hefyd bod sawl her yn wynebu ysgolion Cymraeg os oedd dyfodol disglair i ddilyn hanes godidog y gorffennol. Bydd rhaid, meddai, i ysgolion ddangos blaengaredd o ran meysydd llafur a bod yn effro i her y byd technolegol a masnachol byd-eang. Bydd rhaid i'r Awdurdodau gynllunio fel bod darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn naturiol oddi mewn i'r gymuned, a bod hynny'n codi'r galw am gyllid digonol a chynllunio strategol ar lefel llywodraeth.

Dymuna UCAC ddiolch i'r pedwar siaradwr am areithiau sy'n sail ar gyfer trafodaeth fywiog a phwysig ar ddyfodol addysg Gymraeg.

Ymwelydd â'r stondin

Daeth ymwelydd i stondin UCAC yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd i holi a oedd cangen gan yr undeb o hyd yn Llundain. Wedi mynd i ddysgu yno'n fuan wedi'r Ail Ryfel Byd, penodwyd Eiona Hammond o Bontarddulais yn ysgrifennydd Cangen Llundain o UCAC yn 1947 a phryd hynny, meddai hi, roedd tua dwsin i bymtheg o aelodau.

Adnoddau, Gwefannau a Chyhoeddiadau

Cynhadledd WISE KIDS: Pobl Ifanc, Technolegau Symudol a'r Rhyngrwyd 2008

Mae WISE KIDS yn trefnu cynhadledd genedlaethol ryngweithiol yn Ne Cymru ar **20 Hydref 2008** ar y cyd â Phartneriaeth Diogelwch Rhyngrwyd Cymru (Wales Internet Safety Partnership - WISP).

Bydd y gynhadledd yn ceisio gwella ymwybyddiaeth o ddefnydd pobl ifanc o'r rhyngrwyd a thechnolegau symudol, gan drafod:

- pa faterion sydd angen sylw er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol gan bobl ifanc i'w defnyddio'n hyderus
- heriau a risgiau'r cyfryngau hyn
- y defnydd o dechnoleg mewn addysg
- profiadau plant o feysydd rhithwir, llythrennedd digidol
- e-ddiogelwch – canllawiau cyfreithiol ac arferion da.

Y gobaith yw ysgogi trafodaeth, syniadau a mesurau ymarferol i helpu'r sector i symud ymlaen wrth gefnogi pobl ifanc a'r rhai sy'n cydweithio â nhw.

Trefnir y gynhadledd draws-sector hon **ar gyfer swyddogion hyfforddi**, **llunwyr polisïau**, **addysgwyr** a gweithwyr eraill sydd â diddordeb yn y materion hyn. Bydd y siaradwyr/trefnwyr yn cynnwys swyddfa'r Comisiynydd Plant, Bebo, Habbo, BECTA, Ofcom, WISE KIDS a MediaSnackers, yn ogystal â phobl ifanc.

Gallwch gofrestru diddordeb yn: http://www.wisekids.org.uk/conf
Rhagwelir y bydd ffi cofrestru o tua £87.

DVD Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen

Mae **Cam wrth Gam** wedi lansio DVD newydd ar weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Un o is-gwmnïau Mudiad Ysgolion Meithrin yw Cam wrth Gam ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal hyfforddiant ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynhyrchu adnoddau i atgyfnerthu'r hyfforddiant hwnnw.

Bydd y DVD *Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen - Cynllunio, chwarae, rhyngweithio a mwynhau dysgu* yn ddefnyddiol iawn i arweinyddion y cylchoedd meithrin ac athrawon mewn unedau meithrin mewn ysgolion. Mae'n adnodd gwerthfawr gan ei fod yn dangos un ffordd o weithredu a chynllunio manwl er mwyn sicrhau arweiniad y plentyn wrth ddatblygu'r cwricwlwm.

Pris y DVD yw £10 ac mae ar gael trwy Mabon a Mabli.

Mae **Mabon a Mabli** yn is-gwmni adnoddau Mudiad Ysgolion Meithrin sy'n arbenigo mewn adnoddau Cymraeg a dwyieithog i blant y blynyddoedd cynnar a hyd at 7 oed. Ceir dewis eang o Lyfrau, DVDs, Cryno ddisgiau, CD-ROMau, Posteri, Gêmau, Cardiau Fflach, Teganau a Phypedau. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan www.mabonamabli.co.uk neu cysylltwch am gopi o'r catalog diweddaraf.

Mabon a Mabli Cyf.,
Ffôn: 01970 639622
e-bost: post@mabonamabli.co.uk
gwefan: www.mabonamabli.co.uk

teacher support cymru

Bob blwyddyn, mae Teacher Support Cymru (TSC) yn helpu athrawon yng Nghymru drwy gynnig **gwasanaethau gwybodaeth, cymorth a chynghori** yn rhad ac am ddim:

- llinell gymorth am ddim (**08000 855 088)** ar faterion yn ymwneud ag arian, iechyd, lles, gofal plant, cyngor gyrfaoedd ayb.
- cymorth ymarferol, emosiynol ac arbenigol gan gynghorwyr a hyfforddwyr profiadol sydd wedi'u hachredu'n broffesiynol
- cynghori cyfrinachol sy'n canolbwyntio ar ddod o hyd i ddatrysiad
- *TSC Direct*, sef e-gylchlythyr rheolaidd sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles athrawon (i danysgrifio ewch i'r wefan)
- cynnig newyddion, canllawiau a ffeithlenni ar amrediad eang o bynciau, gan gynnwys rheoli straen, bwlio yn y gweithle a datblygiad personol parhaus.

Gallant gynnal gweithdy yn eich ysgol ar sut i reoli llwyth gwaith personol neu sut i roi help a chyngor i gydweithwyr. Bydd rhodd o £150 yn caniatáu i aelod o TSC ddarparu'r gweithdy a chyflenwi'r defnyddiau atodol ar gyfer yr holl staff ar ddiwrnodau hyfforddi staff, sesiynau gyda'r nos neu mewn cyfarfodydd staff.

Mae TSC yn elusen sy'n dibynnu ar roddion gwirfoddol er mwyn darparu gwasanaethau am ddim. Os hoffech gynnig cymorth, ewch i'w gwefan neu ffoniwch Rhia Stankovic-Jones ar 01443 827686.

Teacher Support Cymru (sy'n rhan o'r Teacher Support Network) yw'r unig elusen yng Nghymru sydd wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi'r proffesiwn dysgu ac mae'n cydnabod mai athrawon yw'r adnodd pwysicaf mewn addysg.

www.teachersupport.info/cymru

Oes angen adnoddau i gefnogi ADCDF, A.G. neu Ddaearyddiaeth arnoch?

Mae **Cymorth Cristnogol** yn darparu adnoddau yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer athrawon. Ewch i'r wefan ar gyfer athrawon i weld yr ystod o adnoddau sydd ar gael: www.christian-aid.org.uk/learn

Y deunydd newydd ar gyfer yr Hydref yw:

Gwasanaeth y mis – cynllun gwasanaeth a PowerPoint byr pob mis yn delio â thema gyfoes ac yn cyfeirio at fywydau pobl go-iawn ar draws y byd.

Masnach deg - cynlluniau gwersi a gwybodaeth am gystadleuaeth barddoniaeth genedlaethol flynyddol 'Divine' a Chymorth Cristnogol (yn Saesneg).

Deunydd ar gyfer y cynhaeaf - dewch i gwrdd â Walter o Bolivia a darganfod pa mor bwysig yw'r cynhaeaf iddo ef. Ceir adnoddau amrywiol megis gweithgareddau dosbarth a chlipiau fideo a chyfle i fod yn greadigol hefyd!

I gael rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth i athrawon, cysylltwch â Swyddog Addysg Cymorth Cristnogol, Eirian Samuel esamuel@cymorth-cristnogol.org neu 02920 844646.